Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwestiynau Cyffredin mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

# Cynnwys


**Cysyniadau Craidd** **4**

1. Beth yw Partneriaeth Gymdeithasol? 4
2. Pwy yw Partneriaid Cymdeithasol? 4
3. Beth yw'r Ffordd Gymreig o weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol? 4
4. Beth yw Partneriaethau Cymdeithasol ffurfiol? 4
5. Pa nodweddion all wella effeithiolrwydd Partneriaeth Gymdeithasol? 5
6. A oes ymddygiadau sy'n cefnogi Partneriaeth Gymdeithasol fel ffordd o weithio? 5
7. Beth yw'r heriau cyffredinol? 5

**Yn berthnasol i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth** **6**

8. Beth yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") 6
9. Beth fydd y Ddeddf yn ei gyflawni? 6
10. Beth yw perthynas y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol â Phartneriaeth Gymdeithasol yn fwy cyffredinol? 6
11. Beth yw'r "Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol"? 6
12. Beth yw diben y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol? 7
13. Pwy sydd angen cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol? 7
14. Beth sy'n ofynnol gan y rhai sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol? 7
15. A fydd unrhyw ganllawiau ar sut i gymhwyso'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol? 7
16. A yw'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn berthnasol i gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru yn yr un ffordd? 8
17. Sut allai fod angen i gyrff cyhoeddus weithio'n wahanol oherwydd Deddf 2023? 8
18. Sut mae'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol o dan adrannau 18 a 19 ('y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol') yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 8
19. Sut mae'r adolygiad o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn effeithio ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ymarferol? 8



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53242
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

20. A oes canllawiau ar gael i gyrff cyhoeddus i helpu i osod ac adolygu eu hamcanion llesiant? 9

21. Sut y bydd cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cael ei dangos? 9

22. A oes rhaid i bartneriaid cymdeithasol gytuno ar adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Gymdeithasol (o dan adran 19) ymhlith ei gilydd 9

23. Pryd mae'n rhaid cyflwyno adroddiad blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol 9

**Swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) 10**

24. A oes fformat penodol ar gyfer adroddiadau blynyddol y Partneriaethau Cymdeithasol? 10

25. Beth yw'r cyfnod adrodd? 10

26. Sut y dylid cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol? 10

27. Beth sy'n digwydd pan fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)? 10

**Cyffredinol 10**

28. Beth sy'n unigryw am weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol? 10

29. Pam fod Deddf 2023 yn cynnwys darpariaethau ynghylch caffael? 10

30. A fydd canllawiau ar Waith Teg? 11

31. Ble galla i gael rhagor o wybodaeth? 12

# Cwestiynau Cyffredin mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd ystod eang o gwestiynau a ofynnir gan randdeiliaid. Er bod llawer ohonynt yn berthnasol yn gyffredinol, mae rhai yn berthnasol i sectorau penodol yn unig. Er mwyn ei gwneud yn haws defnyddio'r ddogfen, mae'r cwestiynau sy'n berthnasol i sectorau penodol wedi'u nodi ar wahân.

# Cysyniadau Craidd

## 1. Beth yw Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd o weithio sy'n dwyn ynghyd cyflogwyr a gweithwyr (a gynrychiolir gan undebau llafur fel arfer) ac weithiau'r llywodraeth, i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac i ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n eu hwynebu.

## 2. Pwy yw Partneriaid Cymdeithasol?

Mae'r ymadrodd "partneriaid cymdeithasol" yn cyfeirio at gyflogwyr ac undebau llafur (neu gynrychiolwyr eraill gweithwyr os nad oes cynrychiolwyr undebau llafur) ac, weithiau, cynrychiolwyr y llywodraeth.

## 3. Beth yw'r Ffordd Gymreig o weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol?

Yng Nghymru mae gennym ymrwymiad hirsefydlog a llwyddiannus i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan ddod â phartneriaid ynghyd o'r llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur i gydweithio a chanfod atebion i broblemau a rennir gyda'i gilydd. Credwn y dylai rhannu problemau ac ymrwymiad cyffredin i lunio atebion ar y cyd fod yn nodweddion o'r 'ffordd Gymreig'.

## 4. Beth yw Partneriaethau Cymdeithasol ffurfiol?

Mae Partneriaethau Cymdeithasol ffurfiol yn strwythurau sy'n hwyluso cyfleoedd rheolaidd i bartneriaid cymdeithasol ymgysylltu'n adeiladol.

Maent wedi'u seilio ar ffordd o weithio sydd wedi'i chynllunio i fynd ar drywydd buddion cyffredin yng nghyd-destun datblygu a gweithredu polisi, neu newid dull gweithredu, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n bennaf fel fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, bargeinio ar y cyd neu ymgynghori.

Mae'r rhain yn aml yn cael eu cefnogi gan ddogfennaeth ffurfiol fel cylchoedd gorchwyl a rhaglenni gwaith.

## 5. Pa nodweddion all wella effeithiolrwydd Partneriaeth Gymdeithasol?

Canfu adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau Partneriaeth Gymdeithasol fod y nodweddion canlynol yn cryfhau cydberthnasau ac effeithiolrwydd:

- Sicrhau eglurder pwrpas, amcanion a nodau.
- Ymgysylltiad ystyrlon a pharhaus â phartneriaid cymdeithasol o'r cychwyn a thrwy gydol y broses ddatblygu polisi.
- Ymrwymiad clir i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a chydweithio, sef cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, a mynd ar drywydd buddion cyffredin.
- Dealltwriaeth ar y cyd o sut mae gwybodaeth a phenderfyniadau yn cael eu rhaeadru a sut mae mynd i'r afael â heriau cyflawni'r amcanion.
- Trefniadau clir ar gyfer monitro ac adolygu llwyddiant.

## 6. A oes ymddygiadau sy'n cefnogi Partneriaeth Gymdeithasol fel ffordd o weithio?

**Oes** – i lwyddo mae angen i Bartneriaethau Cymdeithasol greu amgylchedd sy'n annog y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn agored gyda'i gilydd a chytuno ar drefniadau gwaith sy'n dderbyniol i'r naill bartner a'r llall, a hynny mewn ysbryd o gydweithredu a chydweithio. Mae'r ymddygiadau hyn yn cynnwys:

- Ymddiriedaeth a pharch.
- Gwerthoedd cyffredin.
- Meithrin cysylltiadau parhaol.
- Tryloywder a chyfathrebu agored.

## 7. Beth yw'r heriau cyffredinol?

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod sawl her gyffredin yn gysylltiedig â gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti.
- Dealltwriaeth wahanol o faterion.
- Heriau diwylliannol.
- Allgáu partneriaid ehangach.

Nid yw'r heriau hyn i gyd yn unigryw i Bartneriaethau Cymdeithasol a gallant hefyd fod yn symptomau cyffredin o ymgysylltu aneffeithiol mewn perthynas ag unrhyw fath o weithio mewn partneriaeth.

Nid gweithio mewn partneriaeth yw'r llwybr mwyaf syml bob amser, gan y bydd heriau ac anghytuno. Lle mae gwrthdaro, dylid ei reoli mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo parch a datrys problemau.

# Yn berthnasol i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth

## 8. Beth yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("Deddf 2023")?

Fframwaith ymddygiadau yw Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr (neu undeb llafur cydnabyddedig) sy'n cydweithio, gyda'r nod o hyrwyddo buddion cyffredin i'r naill bartner a'r llall, a sicrhau penderfyniadau cynhwysol. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a nodau a rennir, ac yn meithrin amgylchedd lle mae'r holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion cyffredin.

Nod Deddf 2023 yw cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol drwy adeiladu ar arferion presennol, a wreiddiwyd mewn trefniadau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer ymgysylltu ag undebau llafur, drwy drefniadau Partneriaeth Gymdeithasol lleol, cenedlaethol a gwahanol sectorau. Mae Deddf 2023 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a gafodd ei ddatblygu mewn Partneriaeth Gymdeithasol.

## 9. Beth fydd y Ddeddf yn ei gyflawni?

Creodd y Ddeddf **Gyngor Partneriaeth Gymdeithasol** statudol, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog. Bydd y dull cydweithredol hwn o bartneriaeth gymdeithasol yn tynnu ar holl wybodaeth, profiad a syniadau cyflogwyr, gweithwyr ac undebau llafur wrth ddatblygu atebion i heriau cyffredin.

Gosododd y Ddeddf **ddyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol** ar rai cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru ac mae'n diwygio nod Cymru Lewyrchus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyfeirio at "waith teg" yn hytrach na "gwaith addas".

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau i gryfhau **Caffael Cymdeithasol Gyfrifol**, gan gynnwys rheoli cadwyni cyflenwi. Darperir manylion penodol mewn perthynas â gofynion Caffael ar wahân.

## 10. Sut mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cysylltu'n fwy cyffredinol â Phartneriaeth Gymdeithasol?

Fframwaith ymddygiadau yw Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr (neu undeb(au) llafur cydnabyddedig) sy'n cydweithio, gyda'r nod o hyrwyddo buddion cyffredin i'r naill bartner a'r llall, a sicrhau penderfyniadau cynhwysol. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a nodau a rennir, gan feithrin amgylchedd lle mae'r holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion sydd ganddynt yn gyffredin.

## 11. Beth yw'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae Deddf 2023 yn cynnwys dwy Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar wahân.

- Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") chwilio am gonsensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion llesiant o dan Ddeddf 2015 neu wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r camau y bydd y corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn, mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgynghori â'u hundebau llafur cydnabyddedig ynglŷn â gosod amcanion llesiant a

phenderfyniadau ynghylch sut i'w cyflawni wrth lunio'r broses ac i ddarparu digon o wybodaeth ac amser i ganiatáu ymateb priodol.

- Mae adran 17 yn gosod dyletswydd wahanol ar Weinidogion Cymru â'r bwriad o gyflawni canlyniad tebyg. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG (sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr) wrth fynd ati i wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y maent yn eu cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf 2015.

Oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at y "ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol" at y ddyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf 2023.

## 12. Beth yw diben y Ddyletswydd Partneriaeth Gyhoeddus?

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yn y pen draw yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru trwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

## 13. Pwy sydd angen cydymffurfio â'r Ddyletswydd?

Mae angen i'r holl Gyrff Cyhoeddus a restrir yn Adran 6 o Ddeddf 2015 (gweler adran 14 o Ddeddf 2023) gydymffurfio â'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol o dan adran 16 o Ddeddf 2023 (ac eithrio Gweinidogion Cymru sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 17 o Ddeddf 2023).

## 14. Beth sy'n ofynnol gan y Cyrff Cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol chwilio am gonsensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu, os nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr eraill eu staff.

- wrth bennu amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf 2015, ac
- wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf 2015.

## 15. A fydd unrhyw ganllawiau ar gael ar sut i gymhwyso'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer cyrff cyhoeddus?

Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn ddull ymddygiadol o weithio. Felly, ni fydd canllawiau rhagnodol ar gael ynghylch cyflawni'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau cyfeirio ar gael i'ch cefnogi a'ch tywys ar eich taith. Mae'r deunyddiau hyn i'w gweld ar dudalen we Llywodraeth Cymru am Ddeddf 2023 (Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | LLYW. CYMRU) sy'n darparu ystod o adnoddau:

Fodd bynnag, bydd canllawiau ar gael ar elfennau penodol y dyletswyddau Caffael yn adrannau (24, 25 a 26) fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.

## 16. A yw'r Ddyletswydd Partneriaeth Gyhoeddus yn berthnasol i Gyrff Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru yn yr un ffordd?

**Nac ydy**. Mae'r ddyletswydd yn wahanol i Weinidogion Cymru. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant (sy'n golygu'n ymarferol ymgynghori â chynrychiolwyr gwahanol gyflogwyr ac undebau llafur) yn hytrach na'r undebau llafur sy'n cynrychioli eu staff fel sy'n wir o ran cyrff cyhoeddus eraill.

## 17. Sut y gallai fod angen i Gyrff Cyhoeddus weithio'n wahanol?

Rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015') gymryd pob cam rhesymol i geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) â chynrychiolwyr eraill eu staff, drwy:

(a) ymgynghori â hwy ar gamau cynnar y broses gynllunio, a

(b) eu cynnwys fel arall gydol y broses drwy wneud y canlynol:

- darparu gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i ystyried yn drylwyr yr hyn sy'n cael ei gynnig, a
- darparu amser digonol i'w galluogi i ystyried yn ystyrlon yr hyn sy'n cael ei gynnig ac ymateb.

## 18. Sut mae'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol o dan adran 18 a 19 yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cysylltu'n uniongyrchol â Deddf 2015 oherwydd ei bod yn ddyletswydd i gynnwys undebau llafur wrth gymryd camau penodol sy'n ofynnol gan adran 3(2)(a) o'r Ddeddf honno (gosod amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni). Bydd gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau llesiant yn Neddf 2015 amcanion llesiant ar waith a luniwyd ganddynt i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at bob un o saith nod llesiant Cymru, ac mae'n ofynnol iddynt gymryd camau tuag at gyflawni eu hamcanion.

## 19. Sut mae'r adolygiad o amcanion Deddf 2025 yn effeithio ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ymarferol?

Mae'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys dwy elfen wahanol:

**I. Gosod Amcaniong**
Rhaid i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant yn unol â Deddf 2015.
Mae'r amcanion hyn yn sail i weithgarwch dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

**II. Gwneud Penderfyniadau Strategol**
Rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae penderfyniadau o natur strategol yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant hynny. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol, cydweithio, cyd-gynhyrchu, a chanlyniadau a rennir wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

Yn ymarferol, mae unrhyw adolygiad neu ddiweddariad o amcanion Deddf 2015 yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd y mae Cyrff Cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, yn enwedig wrth alinio penderfyniadau strategol â blaenoriaethau a adnewyddwyd.

## 20. A oes canllawiau ar gael i helpu Cyrff Cyhoeddus i adolygu eu hamcanion llesiant?

Mae canllawiau statudol ar ar Ddeddf 2015 ar gael eisoes ar gyfer Cyrff Cyhoeddus sy'n amlinellu'r hyn y dylai cyrff cyhoeddus ei wneud wrth adolygu eu hamcanion llesiant. Dyma'r canllawiau:

- Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol 1: Canllaw Craidd (yn benodol ar adran 5.2).
- Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol 2: Rôl unigol (cyrff cyhoeddus) (yn enwedig paragraffau 18 i 24).

Mae dogfennau perthnasol ychwanegol yn cynnwys:

- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.
- Cerrig Milltir a Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.
- Adroddiad Llesiant Cymru.
- Cenedlaethau'r Dyfodol (CenedlaethaurDyfodol2020.cymru).
- Asesiadau o lesiant lleol (sy'n berthnasol i'r ardal y mae'r corff yn gweithredu ynddi).

## 21. Sut fydd cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn cael ei dangos?

Nid yw'n fwriad gan swyddogion Llywodraeth Cymru i fod yn rhagnodol a phennu neu ddiffinio'r union gamau y dylai Cyrff Cyhoeddus eu mabwysiadu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd. Fodd bynnag, o dan adran 18 o Ddeddf 2023, rhaid i gyrff cyhoeddus o fewn cwmpas y Ddeddf gyflwyno adroddiad blynyddol yn dangos sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i'w graffu (rhoddir dyletswydd gyfatebol ar Weinidogion Cymru gan adran 19).

## 22. A oes rhaid i bartneriaid cymdeithasol gytuno ymhlith ei gilydd ar yr adroddiad hwn?

Rhaid cytuno ar adroddiad blynyddol y Bartneriaeth Gymdeithasol gydag undeb llafur cydnabyddedig y Corff Cyhoeddus neu gynnwys datganiad sy'n nodi na chafwyd cytundeb arno.

## 23. Pryd mae'n rhaid cyflwyno adroddiad blynyddol y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol?

Dylid cyflwyno adroddiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol (gweler adrannau 17 a 18).

# Ymatebion sy'n berthnasol i rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

## 24. A oes fformat penodol ar gyfer adroddiadau blynyddol Partneriaethau Cymdeithasol?

Na, lle pob sefydliad yw penderfynu ei hun ar y fformat gorau ar gyfer cyflwyno eu hadroddiad.

## 25. Beth yw'r cyfnod adrodd?

Dylai pob adroddiad gynnwys un flwyddyn ariannol (1 Ebrill i 31 Mawrth).

## 26. Sut y dylid cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol?

Drwy e-bostio dolen at yr adroddiad cyhoeddedig i flwch post y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol: CyngorPartneriaethGymdeithasol@llyw.cymru.

## 27. Beth sy'n digwydd pan fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r CPG?

Pan fydd yr holl adroddiadau wedi'u cyflwyno, bydd ysgrifenyddiaeth y CPG yn darparu crynodeb i'w drafod gan y CPG. Mae aelodau'r CPG hefyd yn cael dolenni at yr holl adroddiadau cyhoeddedig.

# Atebion Cyffredinol

## 28. Beth sy'n unigryw am weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol?

Mae partneriaeth gymdeithasol yn darparu cyfle unigryw i sicrhau ymrwymiad a chydweithrediad rhwng cyflogwyr, undebau llafur a llywodraeth gydol y broses o ddatblygu a gweithredu polisi. Cymru oedd y wlad gyntaf i ymgorffori'r model hwn o Bartneriaeth Gymdeithasol yn y gyfraith, gan ei roi ar sail statudol.

Nid fframwaith yn unig yw Partneriaeth Gymdeithasol – mae'n ffordd o weithio. Mae'n cynrychioli dull ymddygiadol a diwylliannol wedi'i wreiddio mewn cydweithredu, ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr. Mae'n dod â chyflogwyr, gweithwyr (trwy undebau llafur fel arfer), a'r llywodraeth at ei gilydd er mwyn:

- Trafod materion o ddiddordeb cyffredin.
- Dod o hyd i atebion i heriau ar y cyd.
- Gwella canlyniadau i weithwyr, gwasanaethau a chymunedau.

## 29. Pam fod Deddf 2023 yn cynnwys darpariaethau ynghylch caffael?

Mae'r dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn Rhan 3 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff a restrir yn Atodlen 1 gydymffurfio â dyletswyddau sy'n cynnwys gosod a bodloni amcanion ar gaffael cymdeithasol gyfrifol, ystyried cynnwys cymalau model mewn contractau wrth roi gwasanaethau ar gontract allanol a gosod contractau adeiladu mawr, ac adrodd yn flynyddol i ba raddau y maent wedi cyflawni eu hamcanion.

Mae'r dyletswyddau caffael yn cysylltu â'r dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol mewn sawl ffordd:

- Yn gyntaf, mae llawer o adrannau'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus wedi'u hategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol fynd ar drywydd lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol drwy gaffael, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn cael eu darparu gan weithwyr dan gontract, ac felly mae angen cynnwys gofynion llesiant, gan gynnwys gwaith teg, mewn contractau yn ogystal â'u bod yn cael eu cyflawni trwy bartneriaeth gymdeithasol.
- Mae Atodlen 1 yn cynnwys cyrff nad ydynt wedi'u rhestru fel "corff cyhoeddus" yn adran 6 o Ddeddf 2015, felly mae'r Ddeddf hon yn ymestyn rhwymedigaethau Deddf 2015 i weithgareddau caffael y sefydliadau hyn.

## 30. A fydd canllawiau ar Waith Teg?

Bydd, mae **canllawiau wedi'u diweddaru ar waith teg** wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

O fewn y Ddeddfwriaeth nid oes unrhyw ddyletswydd benodol ar gyfer Gwaith Teg. Drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn y nod llesiant presennol 'Cymru lewyrchus', sicrhaodd Deddf 2023 bod angen i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 ystyried 'gwaith teg' wrth bennu a chyhoeddi amcanion llesiant a luniwyd i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y corff cyhoeddus at gyflawni'r nodau llesiant.

## 31. Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar Bartneriaeth Gymdeithasol, ewch i'r dudalen we: **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**.

- Ewch i'n safle ar y fewnrwyd: Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Cysylltwch â'r Tîm Partneriaeth Gymdeithasol: pgcgt@llyw.cymru/ spefw@gov.wales

**Dyma rai adnoddau allweddol:**

- Mae Llawlyfr Partneriaeth Gymdeithasol Llawlyfr Partneriaeth Gymdeithasol | LLYW.CYMRU wedi'i gwblhau sy'n coladu'r holl ddeunyddiau cyfeirio perthnasol ar Bartneriaethau Cymdeithasol i un fformat hawdd ei ddefnyddio.
- Adnodd Hunanasesu ar gyfer Partneriaethau Cymdeithasol Llawlyfr Partneriaeth Gymdeithasol | LLYW. CYMRU i bartneriaid cymdeithasol ei ddefnyddio fel fframwaith gwerthuso gwirfoddol i brofi a beirniadu cryfderau eu cysylltiadau ac effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth.
- Pecyn o hyfforddiant aml-lefel sy'n cynnwys digwyddiadau hyfforddi, gweithdai, modiwlau ar-lein, a deunyddiau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi a grymuso gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
- Mae'r Cylchlythyr Partneriaeth Gymdeithasol yn gyhoeddiad digidol a gyhoeddir bob rhyw dri mis. Mae'n cynnig diweddariad cynhwysfawr ar ddatblygiadau ym maes Partneriaeth Gymdeithasol, gan gynnwys diweddariadau polisi, astudiaethau achos, adnoddau a digwyddiadau sydd yn yr arfaeth. Mae'r cylchlythyr wedi'i gynllunio ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn Partneriaeth Gymdeithasol, a gall unigolion danysgrifio'n rhwydd i gael pob rhifyn yn awtomatig trwy e-bost.
- Tanysgrifio i'r cylchlythyr Partneriaeth Gymdeithasol | LLYW. CYMRU.